# Minutes

## Cyngor

| | |
|---|---|
| Date: | Dydd Mawrth, 20 Gorffennaf 2021 |
| Time: | 5.00 pm |
| Present: | Councillors J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, C Ferris, D Fouweather, G Giles, D Harvey, Councillor R Jeavons, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Rahman, J Richards, M Spencer, T Suller, K Thomas, C Townsend, T Watkins, M Whitcutt, D Williams, G Berry, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, H Townsend and J Watkins |
| Apologies: | Councillors C Evans, J Guy, H Thomas, Councillor R Truman, R White, K Whitehead, D Wilcox and V Dudley |

1. **Mayor's Announcements**

Atgoffwyd yr Aelodau y gallent wahodd y Maer i unrhyw ddigwyddiadau yn eu ward.

Yr oedd y Maer hefyd yn gobeithio y gallai helpu i hyrwyddo a dathlu'r gwaith sy'n cael ei wneud ganb ofalwyr maeth.

Yr oedd y Maer hefyd yn bwriadu ymweld a chanolfan ailgylchu gwastraff i hyrwyddo'r gwaith gwych sy'n cael ei wneud gan staff yng Nghasnewydd.

2. **Cofnodion**

Cyflwynwyd Cofnodion 29 Mehefin 2021i'w cymeradwyo.

**Cytunwyd:**
I gymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.

3. **Penodiadau**

<u>I ystyried y penodiadau arfaethedig sydd yn yr adroddiad</u>

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a osodir allan yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol isod.

**Penderfynwyd:** Cytuno i'r penodiadau a ganlyn.

**Penodiadau i Gyrff Llywodraethol**

| Corff Llywodraethol | Nifer swyddi gwag / Ail-benodiadau | Enwebiadau a Dderbyniwyd |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd St Julians | 1 | Deborah Davies |
| Ysgol Gynradd Pentrepoeth | 1 | David Williams |
| Ysgol Gynradd Jubilee Park | 1 | Elizabeth Thomas |

| | | |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Jubilee Park | 1 | Sally Mlewa |
| Ysgol Gynradd Parc Tredegar | 1 | Trevor Watkins |
| Ysgol Gynradd Parc Brynderw | 1 | Catherine Jones |
| Ysgol Bryn Derw | 1 | Paula Halsall |
| Ysgol St Julians | 1 | Farzina Hussain |
| Ysgol Maes Ebbw | 1 | Vicky Barry |

Yn ychwanegol at y penodiadau yn yr adroddiad, argymhellodd y Cabinet y dylid penodi Sarah Morgan yn Aelod o Fwrdd Partneriaeth Strategol Partneriaeth Addysgol Cymru – WEPCo Ltd.

4. **Adroddiad Rheoli'r Trysorlys**

Cyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd yr Arweinydd i gydweithwyr dderbyn ymddiheuriadau ar ei rhan hi a'r Pennaeth Cyllid gan mai'r sefyllfa canol-blwyddyn oedd ym mhecyn Agenda'r aelodau, ac nid yr adroddiad am yr hyn a gynhyrchwyd. Y fersiwn ar y wefan oedd yn un gywir. Yr oedd yr Arweinydd wedi paratoi briffiad cynhwysfawr i gynghorwyr ar y cynnyrch oedd yn esbonio'r sefyllfa a beth oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn 2020/21 o ran Rheoli Trysorlys.

Yr oedd yr adroddiad yn cyflawni cyfrifoldeb y Cyngor i dderbyn a chymeradwyo adroddiad ar gynnyrch rheoli'r trysorlys bob blwyddyn. Yr oedd yr adroddiad yn ymwneud â chynnyrch 2020/21 ac fe'i hadolygwyd gan y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet, ac ni wnaed unrhyw sylwadau made.

Yr oedd yr adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth a ganlyn:

- manylion cyllido cyfalaf, benthyca, ail-drefnu dyledion a thrafodion buddsoddi
- adroddiadau ar oblygiadau risg penderfyniadau a thrafodion y trysorlys
- manylion am gynnyrch trafodion rheoli'r trysorlys yn 2020/2021 sy'n cadarnhau cydymffurfio â'r terfynau trysorlys a osodwyd gan y Cyngor.

Cawsai pandemig Covid effaith ar Reoli Trysorlys yn ystod 2020/21. Ers dyddiau cynnar y pandemig, rhaid oedd i'r Cyngor fonitro cynnydd sylweddol mewn gweithgareddau llif-arian trwy gydol 2020/21, o wneud grantiau busnes a'r Cynllun Rhyddhad Trethi Busnes yn benodol, a hefyd trwy eu costau eu hunain a lefel incwm is. Rhoes Llywodraeth Cymru gefnogaeth llif-arian sylweddol yn syth er mwyn sicrhau bod gan Gynghorau ddigon o gyllid i weinyddu'r cynllun trethi busnes a grantiau busnes. Ad-dalwyd Cynghorau am y costau ac incwm is. Ochr yn ochr â'r llithriad yng nghyflwyno eu cynlluniau cyfalaf eu hun a thanwariant ar y gyllideb refeniw, golygodd hyn fod llif arian yn fwy cadarnhaol na 'blwyddyn normal', a arweiniodd at lai o fenthyca a llawer mwy o weithgareddau buddsoddi tymor-byr.

Fodd bynnag, ni wnaeth hyn leihau'r angen am ymrwymiad benthyca'r Cyngor, ond fe arafwyd graddfa'r benthyciadau a gymerwyd tuag at lefel yr ymrwymiad hwnnw.

Ar waethaf yr uchod, yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, yr oedd y Cyngor yn dal i fuddsoddi yn y tymor byr ac yn benthyca i reoli llif arian o ddydd i ddydd yn 2020/21.

Gan droi at weithgareddau benthyca yn benodol, yr oedd y flwyddyn ariannol yn gymharol dawel, fel y gwelir yn Atodiad B i'r adroddiad:

- Ad-dalodd y Cyngor fenthyciad tymor-byr a gymerwyd ym Mawrth 2020 er mwyn cael llif arian ac i hwyluso talu grantiau busnes yn gynnar yn Ebrill. Ad-dalwyd hyn gan Lywodraeth Cymru, yn ôl y cynllun, ym Mehefin 2020.

- Ym Mawrth 2021 bu'r Awdurdod yn benthyca ar sail tymor-byr er mwyn talu am weithgareddau arferol.
- Yn olaf, rhaid oedd gwneud y lleiafswm o fenthyca tymor-hir newydd yn ail hanner y flwyddyn ariannol, sef cyfanswm o £94k. Yr oedd y benthyca hwn o 'Salix' a oedd yn ddi-log ac yn gysylltiedig â phrosiect effeithlonrwydd ynni penodol.

Er bod gan y Cyngor gryn ofynion o ran benthyca tymor-hir, yr oedd yn dal i ddilyn ei strategaeth bresennol o dalu am wariant cyfalaf trwy 'fenthyca mewnol' yn hytrach na benthyca o'r newydd lle gallai. Mae modd gwneud hyn oherwydd yr arian wrth gefn sydd ganddynt, ac ar 31 Mawrth 2021, yr oedd y benthyca mewnol tua £107m a oedd, ar y cyfraddau llog cyfredol, yn arbed tua £2.4m mewn costau llog bob blwyddyn.

Dengys amcangyfrifon cyfredol o lif arian y Cyngor y gallai fod angen benthyca tymor-hir ychwanegol yn ail hanner y flwyddyn ariannol hon i dalu am y rhaglen gyfalaf. Er bod llithriad ar hynny wedi ei gynnwys yn y rhagolygon llif arian, byddai'r hyn fyddai'n digwydd mewn gwirionedd yn y flwyddyn o ran cyflwyno prosiectau yn cael cryn ddylanwad ar hyn. Yn benodol, byddai prosiectau mawr yn y cynlluniau Addysg Band B yn rhoi cychwyn ar y cyfnod pan fyddid yn dechrau benthyca yn y tymor hwy.

I droi at weithgareddau buddsoddi, strategaethau'r Cyngor yn y maes hwn o Reoli Trysorlys oedd (i) bod yn fuddsoddwr tymor byr ac o werth cymharol isel, sy'n gyson â dilyn 'strategaeth benthyca mewnol' a (ii) blaenoriaethau buddsoddi yw diogelwch, hylifedd, ac elw, yn y drefn honno.

Yr oedd pob buddsoddiad yn rhai dros dro ac mewn sefydliadau diogel iawn, yn unol â strategaeth arall y Cyngor yn y maes hwn. Ar 31 Mawrth 2021, buddsoddwyd £15m gyda gwahanol awdurdodau lleol a £9.8m gyda banciau a chymdeithasau adeiladu.

Yn olaf, dangosyddion darbodus. Yr oedd yr Awdurdod yn mesur ac yn rheoli'r graddau yr oedd yn agored i risgiau rheoli trysorlys trwy ddefnyddio gwahanol ddangosyddion y gellir eu gweld yn Atodiad B. Yr oedd yr adroddiad yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r Dangosyddion Darbodus am 2020/21, fel y'u gosodwyd allan ym mis Chwefror 2020 fel rhan o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.

Eiliodd y Cynghorydd Jeavons yr adroddiad.

**Cytunwyd:**

- Fod y Cyngor yn nodi ac yn cymeradwyo'r adroddiad ar weithgareddau rheoli trysorlys am 2020/21 yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 y cytunwyd arni
- Nododd y Cyngor sylwadau'r Pwyllgor Archwilio am yr adroddiad.

5. **Ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol (BGC)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cyngor. Yr oedd yr adroddiad, fyddai'n cael ei dderbyn gan bob awdurdod lleol yng Ngwent, yn cyfoesi aelodau am ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol 'Gwent' ac ar y rownd nesaf o Asesu Cynlluniau Lles Lleol.

Byddai'r aelodau yn ymwybodol o 'Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus UnCasnewydd' neu'r 'BGC' a rôl bwysig y bartneriaeth hon. Hyd yma, bu gan ardal pob awdurdod lleol yng Ngwent ei BGC ei hun.

Yr oedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn galluogi cyfuno dau neu fwy o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) petai hyn yn eu helpu i gyfrannu at gyrraedd nodau lles.

Yr oedd partneriaid ledled Gwent yn cydnabod manteision gweithio gyda'i gilydd fel rhanbarth ac adeiladu ar bartneriaeth anffurfiol 'G10' sy'n bodoli eisoes, a chynigiwyd ein bod yn gweithio gyda'n gilydd fel un BGC Gwent.  Yr oedd hyn yn golygu cael un Asesiad Lles i'r rhanbarth, ac un Cynllun Lles. Byddai ôl troed y corff rhanbarthol yn cyd-fynd yn well ag amrywiaeth o bartneriaethau sy'n bod eisoes mewn sefyllfa sy'n gynyddol gymhleth.

Amlinellodd yr adroddiad y trefniadau ar gyfer ffurfio BGC Gwent o fis Medi eleni ymlaen, ac er mai penderfyniad i'r BGC oedd hwn,  yr oedd newidiadau hefyd i Gyngor Dinas Casnewydd fel partner allweddol. Gofynnwyd i'r Cyngor felly nodi'r newidiadau, a chymeradwyo'r newidiadau llywodraethiant a chyfansoddiadol angenrheidiol, i roi'r trefniadau arfaethedig ar waith.

**Partneriaeth leol**
Yr oedd yr adroddiad a atodwyd yn cael ei gyflwyno ym mhob un o'r pum ardal awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent.  Ymgynghorwyd â'n BGC 'UnCasnewydd' ni a chytunwyd ar y newid arfaethedig i ddod i rym o fis Medi ymlaen. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid yn UnCasnewydd i sicrhau bod ein partneriaeth leol gref yn parhau, ac y mae hyn yn cynnwys parhau i gyflwyno'r Cynllun Lles cyfredol (2018-2023).

Byddai'r Cyngor hefyd yn adolygu'r trefniadau ar gyfer Partneriaeth Craffu lleol ac yn parhau i weithio gydag aelodau Craffu ar yr agwedd bwysig hon. Yr oedd hyn yn cynnwys Craffu Rhanbarthol ar y BGC newydd, ond yn lleol, roedd y dasg o graffu ar bartneriaeth Casnewydd yn parhau.

Byddai BGC ar draws y rhanbarth hefyd yn ystyried pwysigrwydd cynnal y partneriaethau lleol cryf oedd yn bodoli ym mhob ardal er mwyn cyflwyno'r Cynllun Lles a gwaith partneriaeth arall.

Byddid yn dal i gyflwyno'r Cynlluniau Lles sy'n bodoli eisoes ledled Gwent trwy bartneriaethau lleol a byddant yn cael eu goruchwylio dan y trefniadau craffu lleol presennol tan wanwyn 2023.

**Cynigion**
Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, dyma'r cynigion y gofynnwyd i'r Cyngor eu nodi a'u cymeradwyo:

1. Cyfuno'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlu BGC Gwent rhanbarthol;
2. Y trefniadau llywodraethiant a chylch gorchwyl arfaethedig y BGC;
3. Datblygu un Cynllun Lles rhanbarthol;
4. Sefydlu Cydbwyllgor Craffu rhanbarthol i adolygu a chraffu ar waith BGC Gwent
5. Awdurdodi'r Swyddog priodol i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau hyn mewn trefniadau llywodraethiant a chylch gorchwyl.

Yr oedd trafodaethau gyda'r Bartneriaeth Craffu yn mynd rhagddynt a byddant yn parhau, i sicrhau datblygu Craffu lleol effeithiol ar drefniadau partneriaeth Casnewydd. Yr oedd hyn yn cynnwys amrywiaeth o waith gan gynnwys diogelwch cymunedol a monitro'r Cynllun Lles cyfredol.

Eiliodd y Cynghorydd Jeavons yr adroddiad.

<u>Sylwadau gan Gynghorwyr:</u>

Gofynnodd y Cynghorydd M Evans sut y byddai ffurfio BGC Rhanbarthol o les i Gasnewydd, gan y byddai ein hanghenion yn wahanol i rai Blaenau Gwent a Sir Fynwy, a sut y byddai'n gwella bywydau ein trigolion. Gan na chytunwyd ar y trefniadau craffu, byddai angen mwy o

fanylion am y trefniadau er mwyn eglurder. Fe fyddai manteision, ond teimlai'r Cynghorydd Evans na allai gefnogi rhywbeth fyddai'n rhoi Casnewydd yn y sedd gefn.

Er nad sesiwn holi ac ateb oedd hon o ran trefniant, yr oedd yr Arweinydd yn falch o ymateb trwy ddweud fod yr adroddiad yn cynnig cyfleoedd sylweddol. Yr oedd Grŵp y G10 eisoes yn cydweithio'n effeithiol, fel y gwelwyd yn yr ymateb i bandemig Covid, trwy'r fforwm gwytnwch lleol. Dangosodd rhaglen lwyddiannus Profi, Olrhain ac Amddiffyn a ddigwyddodd ar draws y rhanbarth ein hymrwymiad i weithio mewn partneriaeth. Yr oedd hyn yn esiampl dda o sut y gweithiodd partneriaeth ranbarthol yn dda i gefnogi dinasyddion yn ardal Gwent, o gymharu â'r trefniadau Profi ac Olrhain yn Lloegr. Cymeradwywyd hyn yn ddiweddar yn Nhorfaen a byddai'n cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod Cyngor Caerffili yr wythnos nesaf. Yr oedd Sir Fynwy eisoes wedi cymeradwyo hyn ac nid yw Cyngor Blaenau Gwent eto wedi cymeradwyo. O ran ein partneriaeth, yr oedd sylfaen gadarn i hyn, yn ogystal â gofynion statudol am weithio mewn partneriaeth, a byddai hyn yn parhau. Ymhellach, byddwn yn dal i weithio fel partneriaeth UnCasnewydd trwy'r cynnig Casnewydd.

**Cytunwyd:**
Cymeradwyodd y Cyngor sefydlu BGC Gwent, un Cynllun Lles a Chydbwyllgor Craffu rhanbarthol, a chytunwyd ar y newidiadau llywodraethiant a chyfansoddiadol angenrheidiol i gyflwyno'r trefniadau arfaethedig hyn, er mwyn cyflwyno manteision cydweithio a gwell deilliannau lles ar lefel ranbarthol, fel y gosodir allan uchod ac yn yr adroddiad cyffredin a atodwyd.

6. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn cychwyn ar y cwestiynau, rhoddodd yr Arweinydd y diweddaraf i'r Cyngor o ran y cyhoeddiadau isod:

- **Dinas Diwylliant**
  Yr oedd Cyngor Dinas Casnewydd wedi ymrwymo i sicrhau fod pobl yn teimlo'n dda am fyw, gweithio, ymweld a buddsoddi yn ein dinas.

  Yr oedd y Cyngor am fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo hyder a balchder mewn cymunedau yn ogystal ag arddangos Casnewydd i'r byd yn ehangach.

  Ar 19 Gorffennaf, cyflwynodd y Cyngor fynegiant o ddiddordeb mewn dod yn Ddinas Diwylliant y DU am 2025.

  Y mae Casnewydd yn ddinas gyda thraddodiad a threftadaeth diwylliannol balch, yn borth i dde Cymru, gyda chymunedau cyfoethog ac amrywiol o ran diwylliant ac iaith.

  Yr oedd Casnewydd hefyd yn rhan o ranbarth ehangach yr hen Went, gyda chyswllt annatod rhwng y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Y mae Casnewydd yn rhannu hanes cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, ar sylfaen ein treftadaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol.

  Mae'r mynegiant hwn o ddiddordeb yn gyfle i amlygu beth sydd gan y ddinas a'r rhanbarth i'w gynnig, a'i ddefnyddio i sbarduno newid.

  Y gobaith yw y byddai hyn yn herio ac yn llunio barn pobl am Gasnewydd, ac yn adrodd i'r byd ddiwylliant unigryw a hanes hir Casnewydd, gan gynnwys gorymdaith y Siartwyr dros ddemocratiaeth. Byddid hefyd yn adrodd hanesion y bobl o bob cwr o'r byd a ddewisodd Gasnewydd yn gartref dros y canrifoedd.

  Byddai'r aber a'r gwastadeddau yn cael eu dathlu, fel gan y sawl y gallwn ddal i weld olion eu traed yn llaid yr aber heddiw.

Byddai'n helpu i ail-danio brwdfrydedd y ddinas dros gerddoriaeth, celf a doniau cynhenid, i wrando ar farddoniaeth, perfformiadau a cherddoriaeth yn dod o bob cwr, boed fawr neu fach.

Yr oedd y Cyngor hefyd eisiau creu llwyfan cryfach i fudiadau gyda'r un diddordebau i gydweithredu yn hytrach na chystadlu am adnoddau. Y nod oedd datblygu rhaglen weithredu ar y cyd, a chyd-gynllunio i hyrwyddo pwysigrwydd cyfoeth diwylliannol Casnewydd i'r trigolion a'r byd yn ehangach.

Yr oedd gan Gasnewydd record gref o weithio mewn partneriaeth a chyflwyno gwelliannau i'w hamgylchedd a'i chymunedau, ac wrth gwrs, o ddigwyddiadau mawr ar raddfa ryngwladol.

Petai'r bid yn mynd ymlaen i'r cam nesaf, byddai'r Cyngor yn datblygu ac yn cyflwyno bid manwl. Petai hwn yn llwyddo, byddai Casnewydd yn cyflwyno rhaglen blwyddyn o hyd o ddigwyddiadau, gweithgareddau a phrosiectau – gyda chefnogaeth partneriaid gwych ledled y ddinas a'r rhanbarth – fyddai'n dathlu diwylliant amrywiol Casnewydd ac yn helpu i'w hagor i hyd yn oed fwy o bobl – yn lleol, rhanbarthol, yn genedlaethol a rhyngwladol.

- **Y Bont Gludo – cyllid ychwanegol**
  Yr oedd yr Arweinydd yn falch o adrodd y cafwyd £80,000 o grant ychwanegol gan Sefydliad Wolfson i helpu i dalu am brosiect trawsnewid y Bont Gludo.

  Y mae'r grant yn ategu'r £8.75m a ddyfarnwyd yn flaenorol gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, £1.5m gan Lywodraeth Cymru a'r £1m o gyllid cyfalaf a neilltuodd y Cyngor i'r prosiect.

  Yr oedd y Sefydliad yn cydnabod arwyddocâd diwylliannol a hanesyddol y Bont Gludo, a byddai'r prosiect trawsnewid hwn yn bywiogi hyn trwy well mynediad i'r cyhoedd ac ymwneud â hwy.

- **Gwobr HWRC**
  Roedd canolfan ailgylchu gwastraff cartref y ddinas ar restr fer am wobr Brydeinig. Un o dair yn unig ledled y DU, a'r unig un o Gymru, yr oedd ar y rhestr am 'wobr safle amwynder dinesig y flwyddyn' yng Ngwobrau Rhagoriaeth Ailgylchu a Rheoli Gwastraff eleni.

  Bu'n flwyddyn hynod o brysur i'r ganolfan, sydd wedi elwa o gynllun newydd, gwell mesurau gwahanu gwastraff, a system archebu newydd.

  Cyfrannodd y newidiadau hyn i gynnydd yn y gyfradd ailgylchu yn y ganolfan, o 65% yn 2019/20 i fwy na 90% yn 2020/21.

  Bydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi ar 21 Gorffennaf, a dymunodd yr Arweinydd bob hwyl i'r tîm am eu gwaith haeddiannol.

- **Manteisio ar frechu a sesiynau brechu**
  Wrth i'r cyfyngiadau lacio dros yr wythnosau nesaf, yr oedd yn gynyddol bwysig i drigolion fanteisio ar y cyfle i gael eu brechu, a gofalu eu bod yn derbyn eu hail ddos.

  Yr oedd y niferoedd yn yr ardal yn wych, ac yn ardal Aneurin Bevan, derbyniodd 88% o'r oedolion yn y boblogaeth eu dos gyntaf ac yr oedd nifer y rhai gafodd ail ddos hefyd yn galonogol, gyda thros 90% o bobl dros 40 oed wedi eu brechu'n llawn.

  Bu llawer yn ein sesiynau galw heibio hefyd, ac yr oedd hynny wedi helpu i godi'r niferoedd. Diolchodd yr Arweinydd i bawb oedd wëid helpu i ledaenu'r neges mewn

cymunedau, ac yn arbennig i'r rhai sy'n gweithio gyda'r sawl all fod yn amharod neu yn bryderus.

Byddai sesiwn galw heibio arall yn cael ei chynnal ar ddydd Sul 25 Gorffennaf yng Nghanolfan Casnewydd rhwng 2pm a 6pm.

- **Cyfoesi'r CDLl**
  Yr oedd gwaith yn mynd rhagddo ar y Cynllun Datblygu Lleol amnewidiol. Byddai'n pennu sut olwg fyddai ar y ddinas a sut y caiff ei datblygu dros y pymtheng mlynedd nesaf.

  Yr oedd y CDLl yn edrych ar sut y dylid defnyddio tir, pa ffyrdd, llwybrau a llwybrau beicio ddylai fod, y defnydd o barciau a mannau gwyrdd, sicrhau bod lle i fusnes, yn ogystal â gwarchod yr amgylchedd.

  Yr oedd y cyfnod ymgynghori diweddaraf yn rhedeg tan 27 Awst, a chafodd tirfeddianwyr, mudiadau rhanddeiliaid a chymunedau lleol gyfle i gyflwyno safleoedd posib i'w cynnwys yn y CDLl amnewidiol, fyddai'n cael eu galw yn Safleoedd a Gynigir.

  Gellid gwneud cyflwyniadau am sawl math o ddefnydd – er enghraifft, tai, gwaith, manwerthu, twristiaeth, seilwaith gwyrdd, adloniant ac ynni adnewyddol.

  Anogodd yr Arweinydd unrhyw bartïon oedd â diddordeb i ddweud eu dweud yng nghyfnod hwn y broses.

  Soniodd yr Arweinydd am ofalwyr maeth yng Nghasnewydd a'u hymrwymiad gwych i ofalu am y plant dan eu gofal. Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i roi diolch cyhoeddus i'r gofalwyr hynny. Hefyd, fel ffordd o roi diolch arbennig i'r rhai fu'n ofalwyr maeth ers amser, enwodd y Cyngor rosyn arbennig yn 'Feithrin gyda Chariad'. Mae hyn yn deyrnged i holl ofalwyr maeth Casnewydd gan bawb yng Nghyngor Dinas Casnewydd.

  Yr oedd yr Arweinydd hefyd eisiau diolch yn arbennig i Joel Hughes o Gaerllion a ysbrydolwyd i sefydlu tudalen Just Giving ar gyfer cefnogwr pêl-droed ifanc y dangoswyd ei loes pan gollodd ei thîm gêm Ewropeaidd ar gyfryngau cymdeithasol. Llwyddasant i ddod o hyd i deulu'r ferch, a roddodd yr arian i UNICEF. Yr oedd hyn yn weithred arbennig gan un o ddinasyddion Casnewydd a wnaeth yr Arweinydd yn falch o gryfderau pobl Casnewydd.

**Cwestiynau i'r Arweinydd**

<u>Cynghorydd M Evans:</u>

Canmolodd y Cynghorydd M Evans hefyd Joel Hughes, a soniodd hefyd am y gofalwyr maeth a'u gwaith da.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at economi'r nos, a'i bryderon fod hyn mewn perygl. Er ei bod yn amlwg fod Covid wedi cael effaith ar yr economi, teimlai'r Cynghorydd Evans fod hyn yn rhannol oherwydd partneriaeth y Cyngor gyda Phrifysgol De Cymru. Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y ffaith fod PDC wedi derbyn arian gan Gasnewydd ar gyfer yr adeiladau newydd, a gwerthu safleoedd Caerllion ac Allt-yr-ynn, ond methu â denu nifer y myfyrwyr a ragwelwyd i'r ddinas. Aeth ymlaen i ddweud fod Casnewydd wedi dod yn ail gwael i Bontypridd. Yn ail, nid oedd gan Gasnewydd unrhyw gwmnïau clybiau nos cenedlaethol, a heb fod â rhai, credai'r Cynghorydd Evans, gan fod gan Mecca Tiffany. Yr oedd y person oedd yn berchen ar glybiau nos yng Nghasnewydd yn rhan o fater dadleuol. Holodd y Cynghorydd Evans a oedd yr Arweinydd yn cytuno fod angen gweithredu radical i ymdrin â'r materion hyn ac a fyddai'r Arweinydd yn ystyried holi cwmni clybiau nos

cenedlaethol a hefyd gwmni casino. Yn olaf, beth oedd yr Arweinydd yn wneud ynghylch PDC iddynt hwy gymryd Casnewydd yn fwy o ddifrif?

Ateb:

Holodd yr Arweinydd pa gwestiwn yr hoffai'r Cynghorydd Evans ateb iddo gan fod yno ddau gwestiwn gwahanol. Soniodd y Cynghorydd Evans eu bod yn un cwestiwn mewn gwirionedd am eu bod yn cyfeirio at economi'r nos.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y berthynas waith cadarnhaol ac adeiladol gyda PDC a bod llawer o'u gweithgaredd seibr a digidol wedi ei leoli yng Nghasnewydd. Maent yn cynnig cefnogaeth gref i egin-gwmniau, oedd yn bwysig i'r Cyngor, gan fod rhai o'r busnesau yng Nghasnewydd megis adeilad Alacrity. Mae Alacrity, a'r Academi Meddalwedd Genedlaethol yn adeilad yr Orsaf Wybodaeth sydd hefyd yn cynnal egin-gwmniau. Yr oedd gan PDC hefyd ran bwysig yn nhwf economaidd y ddinas a chyfnewid gwybodaeth. Hefyd, yr oeddent yn rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd a Rhwydwaith Economaidd Casnewydd. Mae'r byd wedi newid, a chanolbwynt prifysgolion wedi newid, gan roi cyfle i ddatblygu'r cynnig seibr yng Nghasnewydd, ac yr ydym yn gweithio'n gadarnhaol gyda PDC i wneud hyn.

Yr oedd yr Arweinydd hefyd wedi ymweld â chanol y ddinas, a'r adborth gan gwmnïau oedd eu bod yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cynigion newydd, megis seddi y tu allan, a bod economi'r nos yn dechrau adfer o effaith y pandemig.  Yr oedd yr Arweinydd yn deall fod a wnelo'r cwestiwn ag economi'r nos cyn y pandemig, ond yng nghyd-destun y pandemig, mae'r strategaeth adfer yn arwain at gyfleoedd. Yr oedd Gwesty'r Queen's wedi newid dwylo yn ddiweddar, a byddai clwb nos newydd yn yr eiddo hwn. Ni allai'r Arweinydd wneud sylw am gasino gan fod pob achos yn cael ei ystyried yn unigol, ac y byddai'n rhaid i'r cynlluniwyd edrych i mewn i hyn.

Ategol:

Dywedodd y Cynghorydd Evans fod niferoedd myfyrwyr wedi gostwng, ac er bod mentrau newydd yn y ddinas, fod llety myfyrwyr yng Nghasnewydd yn cael ei lenwi gan fyfyrwyr o Fryste. Ychwanegodd y Cynghorydd Evans nad oedd myfyrwyr lleol yn cael eu hystyried pan fod angen llenwi bloc llety gyda myfyrwyr. Dywedodd y Cynghorydd Evans fod angen cydnabod y mater hwn, am ei fod yn effeithio ar economi'r nos.
Ynn 2017, cyhoeddodd y Cyngor Statws Baner Borffor i economi'r nos, a byddai'r Aelod Cabinet ar y pryd yn edrych i mewn i hyn. Yr oedd y Cynghorydd Evans yn sylweddoli na allai clybiau nos ar hyn o bryd agor yng Nghymru, ond yr oedd am gael ymchwil i'r Statws Baner Borffor. Teimlai'r Cynghorydd Evans, ar fater casino, fod angen i'r Cyngor edrych ar atebion radical. Er bod yr ICC a'r Celtic Manor ar gael, efallai y byddai'n well gan gwsmeriaid fynd i Gaerdydd neu Fryste yn lle Casnewydd.

Ateb:

Dywedodd yr Arweinydd fod Casnewydd yn gweithio'n dda gyda PDC oedd â nifer allweddol o weithgareddau, a disgyblaethau gwyddonol a busnes yma.  Dywedodd yr Arweinydd fod hyn yn cyfateb i ganolbwynt ein dinas, sef twf a chael dinas ffyniannus i bawb.  O ran niferoedd myfyrwyr, ni cwestiwn ar ei ben ei hun mo hwn, a rhaid ystyried Coleg Gwent fyddai'n symud i ganol y ddinas, ac y deuai mwy o fyfyrwyr.  Dylid nodi hefyd nad yw pob myfyriwr mewn colegau addysg bellach yn 16-18 oed, a bod y colegau hyn yn denu llawer o fyfyrwyr aeddfed. Byddai adleoli Coleg Gwent yng nghanol y ddinas yn denu rhyw 2,000 o fyfyrwyr i'r ardal. O ran cyfle am dwf ac atyniadau, mae hyn yn dibynnu a oedd y canolbwynt ar les y trigolion ai peidio. Gellid peryglu lles meddyliol trwy agor casino ac annog gamblo, neu gellid cael band byw, fel y digwyddodd yng nghanol y ddinas brynhawn Sadwrn diwethaf yn y Stryd Fawr. Anogodd yr Arweinydd y Cynghorydd i siarad â chynrychiolwyr, megis busnesau lleol, a gofyn am eu syniadau. O ran Bid y Ddinas Diwylliant, roedd y busnesau

lleol oll wedi dweud eu bod eisiau Casnewydd fyddai'n tyfu'n organig heb fod angen i gwmnïau mawr ddod i mewn a cham-fanteisio ar bobl.

Nid oedd y Cynghorydd K Whitehead yn bresennol i gyflwyno cwestiwn i'r Arweinydd, ond byddai'n gwneud hynny trwy e-bost yn ôl cyfarwyddyd y Cynghorydd Jordan.

Cynghorydd C Townsend:

Fel rhan o gais codi'r gwastad diweddar, a allai'r Arweinydd gadarnhau a oedd y Cabinet yn edrych i mewn i unrhyw gynlluniau eraill?

Ateb:

Mae ein Cynllun Meistr am ganol y ddinas yn rhoi i ni'r fframwaith i ateb y meini prawf am Godi'r Gwastad, oedd yn cynnwys y cynlluniau adfywio. Yr hyn oedd yn tywys y penderfyniad hwn felly oedd: y Cynllun Meistr, terfynau ariannol y Gronfa, a'r hyn y gellid yn rhesymol ei gyflawni o fewn yr amser o ran gweithredu unrhyw gamau o fidiau llwyddiannus. Ffactor arall yn y penderfyniad oedd yr effaith lluosydd o ran teithio llesol, yn dilyn ymlaen o Gomisiwn Trafnidiaeth De Ddwyrain Cymru. Dyma pam fod y maes hwn yn cael ei amlygu.

Cynghorydd Forsey:

O ran bid Casnewydd i ddod yn Ddinas Diwylliant 2025, pa fudiadau oedd yn rhan o hyn, a pha ddigwyddiadau oedd ar y gweill?

Ateb:

Ysgrifennydd Gwladol Cymru a anogodd Gyngor Dinas Casnewydd i wneud y bid. O ran y cais ei hun, dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth y DU ganiatáu cyflwyno cais fel hwn ar sail daearyddol ehangach. Er bod Casnewydd fel dinas yn gwneud y bid, byddai hefyd yn gadael ôl troed i Went, gyda'i chyfoeth o hanes a diwylliant. Ein partneriaid yn hyn fyddai pedwar awdurdod lleol Gwent. Ymysg y llu o bartneriaid eraill yr oedd PDC, Coleg Gwent, Bid Casnewydd Nawr, Friars Walk, a'r cwmnïau creadigol, Cynghrair Sgrîn Cymru, a rhai cwmnïau llawrydd. Yr oedd hyn am fod Casnewydd yn cydnabod fod angen ymdrech ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfoeth diwylliannol, a'r manteision economaidd ddeuai o adfywio. Edrych i'r dyfodol yr ydym, gan ddeall fod ein hanes a'n treftadaeth yn annatod ynghlwm, o ddiwydiant trwm y gorffennol i ddiwydiant y dyfodol. Byddwn yn ceisio gwreiddio data a thechnoleg. Yr hyn oedd yn bwysig oedd rôl unigolion a chymunedau yn gweithio gyda mudiadau a phlant yn y cymunedau hynny i ddatblygu rhaglen o ddigwyddiadau. Enghraifft oedd Operasonic, oedd yn gweithio gyda theuluoedd teithiol sipsiwn Roma ym Maendy a Lliswerry, gan ddefnyddio cerddoriaeth i uno a ffurfio cymunedau cydlynus. Yr oedd Ballet Cymru hefyd wedi gwneud gwaith gwych gyda phlant yn Somerton yng nghyswllt y Prosiect Deuawdau Cenedlaethol. Yr oeddem felly am ymwneud â'r cymunedau er mwyn cael llwyfan cadarn at y dyfodol.

7. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Mae pedwar cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet:

**Cwestiwn 1 – Aelod Cabinet: Trwyddedu a Rheoleiddio**

Yn absenoldeb y Cynghorydd Truman, rhoddwyd yr ateb ysgrifenedig isod i gwestiwn y Cynghorydd J Watkins.

Cynghorydd J Watkins:

O gofio lefelau annerbyniol ocsid nitrus ac ansawdd aer gwael ar draws y system unffordd yng Nghaerllion, a all yr Aelod Cabinet esbonio pam nad yw ansawdd yr aer y tu allan i Ysgol Gynradd Charles Williams yn cael ei fonitro? Ysgol yw hon sydd yng nghanol y system hon ac sydd felly yn gadael plant ifanc yn agored i afiechydon oherwydd ansawdd wael yr aer.

Ateb:
Mae Iechyd Amgylchedd yn ymwybodol iawn o bryderon y gymuned leol yng Nghaerllion am ansawdd aer, ac wedi bod yn ymwneud â'r pennaeth a Chymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Charles Williams. Arweiniodd hyn at waith monitro tiwbiau tryledu yn yr ysgol o Orffennaf 14 2021. Bydd hyn yn darparu data fydd yn rhoi eglurder ynghylch safle'r ysgol ar sbectrwm ansawdd aer a arsylwir ar draws Caerllion.

Fodd bynnag, o gofio natur y data am ansawdd aer a gafwyd yn y lleoliadau monitro agosaf at yr ysgol, ni ragwelir y bydd unrhyw dorri ar yr amcan ansawdd aer o ran nitrogen deuocsid yn Ysgol Charles Williams.

**Cwestiwn 2 – Dirprwy Arweinydd/Aelod Cabinet: Gwasanaethau'r Ddinas**

**Cynghorydd Mogford:**

Cwestiwn am ddiogelwch y ffyrdd sydd gennyf i, ac a yw'n fwriad gan Gyngor Dinas Casnewydd gyflwyno mwy o gyfyngiadau 20mya ar ein ffyrdd?

Ar 7 Mai 2019 dywedodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford yn y Senedd –

*'Gwyddom fod parthau 20mya yn arafu cyflymder traffig, yn lleihau damweiniau – yn enwedig damweiniau i blant – ac yr ydym am weld hynny yn dod yn sefyllfa ddiofyn ledled Cymru.'*

Mae'n siŵr nad ef oedd y person cyntaf i ynganu'r geiriau doeth hyn am beryglon traffig yn goryrru. Yn Ward Langstone, buom yn erfyn am gyfyngiadau o'r fath ers blynyddoedd.

Allai'r aelod cabinet roi'r diweddaraf i'r Cyngor am gyflwyno parthau 20 mya yng Nghasnewydd ac esbonio pa ymgynghori lleol sydd ar y gweill i gefnogi unrhyw benderfyniadau a gymerir yn lleol?

A yw'r Aelod Cabinet yn ystyried mai ffyrdd a mynedfeydd i ysgolion a ddefnyddir yn rheolaidd gan blant ddylai gael y flaenoriaeth uchaf o ran gosod cyfyngiadau cyflymder?

Ateb:
Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar y bydd cyflwyno terfynau 20mya yn ffurfio rhan o'i rhaglen waith gychwynnol. Newid polisi cenedlaethol yw hwn, ac felly, Llywodraeth Cymru sy'n arwain yr ymgynghori. Cafodd ei lansio yr wythnos ddiwethaf ac fe'i ceir ar wefan Llywodraeth Cymru. Yn lleol, mae ymgynghori yn digwydd trwy broses GRhT statudol.

Mae Casnewydd eisoes wedi cyflwyno ardaloedd treialu ledled y ddinas ac yr ydym yn aros am ganllawiau manwl gan Lywodraeth Cymru cyn cyflwyno'n llawn. Disgwylir i hyn ddigwydd ymhen 18 mis.

Bydd diogelwch mewn ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd dan y newid deddfwriaethol hwn.

Fe fydd yr Aelod yn ymwybodol fod mynedfa Ysgol Gynradd Langstone eisoes dan fesurau tawelu traffig, ac yn dod dan barth 20mya sy'n bodoli eisoes fel rhan o fenter flaenorol gan Lywodraeth Cymru i wella diogelwch y ffyrdd ger ysgolion.

Ategol:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Mogford at gwestiwn blaenorol i'r Cyngor oedd yn nodi fod hanner ysgolion Casnewydd â chyfyngiad cyflymdra uwch na 20mya. A fyddai'r Aelod Cabinet yn rhoi sicrwydd y byddai'r cyfyngiad yn cael ei ostwng i 20mya y tu allan i Ysgol Langstone gan y gall Cyngor Dinas Casnewydd wneud hyn.

Ateb:
Yr oedd mesurau tawelu traffig eisoes yn eu lle wrth Fynedfa Dysgwyr Ysgol Gynradd Langstone ac yr oedd mewn parth 20mya fel rhan o fenter LIC i hybu diogelwch mewn ysgolion; yr oedd y ddwy fynedfa arall ymaith o'r ffordd.

Gofynnodd y Cynghorydd Mogford am eglurder ynghylch a soniodd yr Aelod Cabinet fod un o'r mynedfeydd oddi ar y ffordd. Byddai'r Aelod Cabinet yn rhoi ateb ysgrifenedig.

Cododd y Cynghorydd Spencer bwynt o drefn am y Rheolau Sefydlog ynghylch cwestiynau ategol, a chadarnhaodd y Swyddog Monitro mai un cwestiwn ategol ddylai gael ei ganiatau, i egluro unrhyw bwyntiau oed dyn codi o'r ateb gwreiddiol.

Atgoffodd y Prif Weithredwr yr aelodau fod y Maer yn y gadair, a gofyn iddynt gadw at y broses gywir o ran cwestiynau i Aelodau Cabinet, sef mai un cwestiwn ac un ategol yn unig a ganiateir o fewn yr amser.

**Cwestiwn 3 – Aelod Cabinet: Datblygu Cynaliadwy**

**Cynghorydd J Watkins:**

Mae rhai Cynghorau yn gosod carpedi planhigion ar ben arosfannau bysus mewn ymdrech i gynnal poblogaethau gwenyn.

O gofio fod yr Awdurdod hwn wedi ymrwymo i gynnal cynnydd ym mhoblogaethau'r gwenyn, sydd yn gostwng, ac sy'n fater pryder, a fydd y Cyngor hwn yn ymrwymo i osod y carpedi planhigion hyn ledled Casnewydd fel mater o frys?

Ateb:
Mae gwrthweithio dirywiad bioamrywiaeth yn flaenoriaeth sylfaenol i'r weinyddiaeth hon.

Rwy'n hapus i gadarnhau ein bod eisoes wedi neilltuo arian ar gyfer nifer o arosfannau bysus cyfeillgar i wenyn, a chânt eu gosod yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Nid yw cysgodfannau o'r fath yn addas ym mhobman a bydd llawer o'n cysgodfannau bysus newydd yn hytrach yn cael paneli solar wedi eu gosod er mwyn cynnal cynllun lleihau carbon y cyngor.

Fel y gwyddoch, dyfarnwyd statws swyddogol cyfeillgar i wenyn i Gasnewydd, a thros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi rhoi nifer o fentrau ar waith, megis:

- Cefnogi bywyd planhigion "dim torri gwair ym Mai" i ddarparu ffynhonnell gynnar o neithdar i wenyn
- Neilltuo tir fel dolydd naturiol i beillwyr
- Lleihau'r defnydd o blaladdwyr trwy fuddsoddi mewn dulliau mecanyddol o ddileu chwyn
- Mynnu bod to gwyrdd mawr cyfeillgar i wenyn ar y cyfleuster hamdden newydd

Mae trigolion yn aml yn gofyn i ni sut y gallwn gefnogi peillwyr, felly rydym wedi creu fideo fel canllaw gaiff ei lansio'n fuan.

Ategol:
O gofio ei bod eisoes yn haf, pan fo gwenyn angen cefnogaeth, beth oedd yr Aelod Cabinet yn olygu trwy ddweud 'yn nes ymlaen yn y flwyddyn?'

Ateb:
Prynwyd y cysgodfannau bysus newydd, ond bydd yn rhaid gwneud gwaith ar y newidiadau hyn. Ar hyn o bryd, y mae ffocws y polisi gwenyn ar dorri gwaith, ac y mae hyn hefyd yn cael ei wneud yn ward Caerllion.

**Cwestiwn 4 – Aelod Cabinet: Hamdden a Diwylliant**

**Cynghorydd M Evans:**

Yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, gofynnodd y Cyng. Charles Ferris pryd y cawsoch gyfarfod diwethaf gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol?

Yn eich ateb, fe ddywedoch nad oedd gofyniad ffurfiol dan y brydles i wneud hyn, ond ni wnaethoch ddweud pryd oedd y tro olaf i chi gwrdd â hwy. A allwch felly roi gwybod i ni sawl gwaith yr ydych wedi cyfarfod â hwy, ynghylch Tŷ Tredegar ers i chi ddod yn Aelod Cabinet?

A allwch hefyd ddweud a ydych yn credu fod trosglwyddo Tŷ Tredegar i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn benderfyniad cywir?

Ateb:
Ni allaf gadarnhau'r union nifer o weithiau y bûm yn cyfarfod â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ond mae'n deg dweud fy mod yn wastad wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod; y tro olaf oedd gyda'ch Dirprwy Gynghorydd Routley. Mae pandemig Covid 19 wedi torri ar draws cyfarfodydd o'r fath, ond wrth i gyfyngiadau lacio, edrychaf ymlaen at gwrdd â'r Ymddiriedolaeth eto.

O ran fy marn am drosglwyddo'r safle i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, nid oeddwn yn Aelod Cabinet ar y pryd.

Ategol:

Awgrymodd y Cynghorydd Evans ei fod yn gofyn am fwy o wybodaeth am berthynas yr Aelod Cabinet gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cyfeiriodd y Cynghorydd Evans at y ddyled a ddaeth i ran cyn 2008, a'r trefniant fod Tŷ Tredegar wedi ei gymryd drosodd yn llwyddiannus gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ateb:
Holodd yr Aelod Cabinet a oedd cwestiwn yn yr hyn a gyflwynodd y Cynghorydd Evans fel ategiad. Nid oedd ganddi ddim mwy i'w ychwanegu at ei hateb gwreiddiol.

The meeting terminated at Time Not Specified